

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
72/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:
30/11/2017

Gwerthusiad Ffurfiannol o'r model Ysgolion Arloesi: Papur ar qeithgarwch Llyn 1 a Llyn 2 cynnar

Teitl: Gwerthusiad Ffurfiannol o'r model Ysgolion Arloesi: Papur ar
qeithgarwch Llyn 1 a Llyn 2 cynnar.

Awduron: Brett Duggan, Tanwen Grover, Dr Alison Glover, Ymchwil Arad

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Duggan, B., Grover, T., a Glover, A. (2017).
*Gwerthusiad Ffurfiannol o'r model Ysgolion Arloesi: Papur ar qeithgarwch
Llyn 1 a Llyn 2 cynnar.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif
72/2017.
Ar gael yn: [http://gov.wales/statistics-and-research/formative-evaluation-pioneer-
school-model/?lang=cy](http://gov.wales/statistics-and-research/formative-evaluation-pioneer-school-model/?lang=cy)

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Rhian Davies

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6791

E-bost: Rhian.davies45@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Geirfa.....	3
1. Cefndir.....	4
2. Rhan A: Canolbwyntio ar weithgaredd Arloesi Strand 1 (Gwaith Maes Chwefror - Ebrill 2017).....	6
3. Rhan B: Canolbwyntio ar weithgarwch Ysgolion Arloesi Llinyn 2 (Gwaith Maes Mehefin – Gorffennaf 2017)	16
4. Rhan C: Gweithgareddau ymchwil sy'n weddill fel rhan o'r gwerthuso ffurfiannol ..	24

Rhestr o dablau

Tabl 1: Crynodeb o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y papur	4
Tabl 2: Sampl o ysgolion a fu'n ymwneud â gweithgarwch Llinyn 1	6
Tabl 3: Sampl o Arloeswyr y Cwricwlwm a gymerodd ran mewn cyfweiliadau Llinyn 2 (Mehffin-Gorffennaf 2017).....	16

Geirfa

Acronym	Diffiniad
CSC	Consortiwm Canolbarth y De
EAS	Gwasanaeth Cyflawni Addysg
ERW	Ein Rhanbarth ar Waith
GwE	Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru

1. Cefndir

- 1.1 Argymhellodd 'Dyfodol Llwyddiannus' y dylid cynnal gwerthusiad annibynnol o'r dull gweithredu er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru.
- 1.2 Mae'r model, sy'n cynnwys cydweithio rhwng partneriaid ac ysgolion cenedlaethol a rhanbarthol, yn arloesol. Ceir pwyslais trwy gydol y gwerthusiad ar ddarparu adborth amser real am y ffordd y mae model yr Ysgolion Arloesi yn gweithio. Felly, nod y gwerthusiad yw deall sut y mae'r model yn cael ei chyflwyno ac i gasglu unrhyw ddysgu a all lywio camau dilynol o gyflwyno'r model.

Cwmpas a chynnwys y papur hwn

- 1.3 Mae'r papur hwn mewn tair rhan. Mae Rhan A yn canolbwyntio ar brofiadau Ysgolion Arloesi o weithgaredd Llinyn 1. Mae Rhan B yn cyflwyno crynodeb o ymchwil gydag 20 o ysgol ychwanegol ym Mehefin a Gorffennaf 2017, gan ganolbwyntio ar weithgaredd Llinyn 2. Mae Rhan C yn amlinellu tasgau ac amserlenni ymchwil sy'n weddill. Ceir crynodeb o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y papur hwn isod:

Tabl 1: Crynodeb o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y papur

Rhan A	
Ffocws:	Arloeswyr Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol rhwng Ionawr 2016 a Chwefror 2017
Amseru:	Gwaith Maes Chwefror-Ebrill 2017
Sampl:	32 cyfweiliad: 19 Arloeswr Cwricwlwm a 13 Arloeswr Dysgu Proffesiynol
Rhan B	
Ffocws:	Gweithgaredd Llinyn 2: Arloeswyr Cwricwlwm a ddaeth yn Arloeswyr yn ddiweddarach ym mis Ionawr 2017
Amseru:	Gwaith Maes Mehefin-Gorffennaf 2017
Sampl:	Cyfweiliadau â 20 o Arloeswyr Cwricwlwm

- 1.4 Ar gyfer Arloeswyr Cwricwlwm, roedd Llinyn 1 yn canolbwyntio ar gynllun strategol y cwricwlwm newydd. Bu pedwar grŵp o Arloeswyr yn gweithio gydag amrediad o arbenigwyr ar y pynciau canlynol:
- Asesu a Dilyniant
 - Cyfrifoldebau ar draws y Cwricwlwm

- Cyfoethogi a Phrofiadau
- Y Dimensiwn Cymreig, y Persbectif Rhyngwladol a'r Sgiliau Ehangach

1.5 Ar gyfer Llinyn 2, buont yn gweithio mewn grwpiau ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad er mwyn datblygu cwmpas pob maes ar lefel uchel, h.y.:

- Datganiad clir am y ffordd y mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn hyrwyddo'r pedwar diben;
- Disgrifiad o gwmpas a therfynau'r Maes Dysgu a Phrofiad gan gynnwys ei faterion canolog, sut y mae'n wahanol i feysydd eraill a pham ei fod yn bwysig ar gyfer addysg pob plentyn a pherson ifanc;
- Penderfyniad am y ffordd orau o gyflwyno'r pynciau cydrannol amrywiol a/neu lynnau o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad; a
- Sylwebaeth am y lefelau penodoldeb tybiedig ar draws y Maes Dysgu a Phrofiad a'r rhesymu dros hyn.

1.6 Gofynnwyd i Arloeswyr Dysgu Proffesiynol arwain datblygiad dull gweithredu dysgu proffesiynol digidol a buont yn gweithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) er mwyn peilotu'r offeryn 'Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu'. Yn ogystal, roedd pob un ohonynt wedi gweithio gyda consortia rhanbarthol er mwyn datblygu a chyflawni darpariaeth dysgu proffesiynol.

1.7 Bydd y gwerthusiad yn parhau tan fis Mawrth 2018 a chyhoeddir adroddiadau byr pellach yn ystod y cyfnod hwn, gan ddarparu adborth rheolaidd i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

2. Rhan A: Canolbwyntio ar weithgaredd Arloesi Strand 1 (Gwaith Maes Chwefror - Ebrill 2017)

Sampl o'r ysgolion a gyfwelwyd yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad

2.1 Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr 32 o Ysgolion Arloesi rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2017, gan dargedu arweinwyr uwch a fu'n ymwneud fwyaf â gweithgarwch Llinyn 1. Cynhaliwyd mwyafrif y cyfweiliadau hyn dros y ffôn a chynhaliwyd nifer fach ohonynt yn ystod ymweliadau ysgol. Dewiswyd ysgolion ar hap ar draws y rhwydwaith Arloesi a rheolwyd y sampl er mwyn sicrhau rhaniad fesul rhanbarth ac er mwyn sicrhau bod ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion arbennig yn cael eu cynrychioli. Roedd y 32 ysgol yn cynnwys 19 o Arloeswyr Cwricwlwm ac 13 o Arloeswyr Dysgu Proffesiynol. Gwelwyd dosbarthiad cymharol gyfartal ar draws ardaloedd y pedwar consortia rhanbarthol, fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 2: Sampl o ysgolion a fu'n ymwneud â gweithgarwch Llinyn 1

Consortium	Arloeswyr Cwricwlwm	Arloeswyr Dysgu Proffesiynol	Cyfanswm
EAS	4	3	7
CSC	4	4	8
GwE	5	4	9
ERW	6	2	8
Cyfanswm	19	13	32

2.2 Roedd y sampl hwn yn cynnwys tair ysgol arbennig a naw ysgol cyfrwng Cymraeg.

Themâu a archwiliwyd yn ystod cyfweiliadau

2.3 Archwiliwyd y themâu canlynol ac maent yn darparu'r strwythur ar gyfer y papur hwn:

- **Rôl a chylch gwaith:** Eglurder o ran rolau, cyfrifoldebau a gweithgarwch a gynlluniwyd.
- **Gweithgarwch gweithgor Llinyn 1 a gweithgarwch Dysgu Proffesiynol cynnar:** trosolwg o gyswllt a gwaith grwpiau, effeithiolrwydd gweithgarwch hwyluso.
- **Gweithgarwch yn yr ysgol:** Gwaith arloesi ar lefel ysgol a gydag ysgolion partner.
- **Cyfathrebu a chydlynu:** Pa mor effeithiol oedd y gwaith o gyfathrebu gwaith y rhwydwaith Arloesi ehangach?
- **Trefniadau sicrhau ansawdd**

- **Adnoddau ac atebolrwydd:** digonolrwydd yr adnoddau er mwyn cyflawni gwaith Arloesi a threfniadau monitro.
- **Gweithgarwch Llinyn 2 cynnar:** eglurder o ran rolau, cyfrifoldebau a gweithgarwch a gynlluniwyd. Digonolrwydd cymorth er mwyn cyfrannu at weithgarwch cyfredol.

2.4 Mae'r gwerthusiad yn mynd rhagddo ac mae'r cam mwyaf diweddar wedi archwilio profiadau ysgolion o weithgarwch Llinyn 1, gyda'r nod o gyfrannu at gamau dilynol y broses o gyflawni'r rhaglen gweithio a chasglu unrhyw bwyntiau dysgu.

Canfyddiadau crynodol

Ysgolion Arloesi: Rôl a chylch gwaith yn ystod Llinyn 1

- 2.5 Roedd mwyafrif yr arloeswyr Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch gweledigaeth a dull gweithredu Ysgolion Arloesi a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus, ac mae eu hymrwymiad iddo yn parhau. Yn ystod cyfweiliadau gydag arweinwyr strategol mewn Ysgolion Arloesi, datgelwyd safbwyntiau cymysg ynghylch gwerth ac eglurder trafodaethau Llinyn 1 a gweithgarwch Arloesi yn gyffredinol.
- Adroddodd penaethiaid ac arweinwyr uwch y bu neilltuo amser i ystyried y theori a'r athroniaeth y seiliwyd Dyfodol Llwyddiannus arno **yn ddiddorol ac yn agoriad llygad.**
 - I Arloeswyr Cwricwlwm, roedd gweithgarwch gweithgor wedi rhoi'r 'cyfle a'r amser' iddynt fyfyrion am ddibenion craidd y cwricwlwm. Gan fanteisio ar ymchwil rhyngwladol ehangach ac ar gymorth arbenigwyr, nododd yr Arloeswyr hyn eu bod yn cael eu hannog **i feddwl mewn ffordd arloesol ac i ddatblygu meddylfryd o arloesi.**
- 2.6 Adroddodd nifer o Arloeswyr, fodd bynnag, nad ydynt yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau cyffredinol wrth gyfrannu at weledigaeth Dyfodol Llwyddiannus, yn enwedig yn ystod eu cyswllt cynnar. Gan fyfyrion ar y gweithgarwch cychwynnol dros 12 mis, roedd pryderon cyffredin arweinwyr strategol mewn ysgolion yn cynnwys y canlynol:
- **Diffyg rhestr weithgarwch neu gerrig milltir wedi'u mapio mewn ffordd eglur.** Er bod cynrychiolwyr ysgolion yn deall ac yn gwerthfawrogi'r ffaith bod gweithgarwch Llinyn 1 yn cynnwys cyfnodau dysgu myfyriol, roedd rhai ohonynt yn

teimlo'n rhwystredig ynghylch y diffyg canlyniadau gwirioneddol yn ystod eu cyswllt cynnar.

- Disgwyliadau aneglur ynghylch y lefelau **rhagnodi neu hyblygrwydd** yr oedd Arloeswyr yn disgwyl gweithio yn unol â nhw.
- Ynghlwm â'r pwynt uchod a chan fyfyrir am eu rolau fel Arloeswyr, roedd nifer o ysgolion yn galw am fwy o **gyfeiriad strategol ar lefel genedlaethol** er mwyn tywys eu gweithgarwch a gynlluniwyd, a gwell trefniadau er mwyn **cydlynu gweithgarwch ar y lefel ranbarthol** er mwyn sicrhau bod gweithredu arloesol Arloeswyr yn cyd-fynd â'i gilydd. Fodd bynnag, dylid nodi bod Arloeswyr yn cydnabod eu bod wedi gweld gwelliannau gydag amser o ran rheolaeth y rhaglen a'r cymorth a ddarparir gan gonsortia rhanbarthol wrth i'r gwaith cyflawni symud yn ei flaen.

Yn gryno:

- Mae gan arloeswyr ddealltwriaeth dda o weledigaeth gyffredinol Dyfodol Llwyddiannus a model yr Ysgolion Arloesi.
- Gwelwyd safbwyntiau cymysg am werth rhai o drafodaethau cynnar Llinyn 1, gyda rhai yn gwerthfawrogi'r trafodaethau 'damcaniaethol' ac eraill yn teimlo'n rhwystredig o ganlyniad i'r broses.
- Roedd ychydig ddiffyg eglurder ynghylch rolau a strwythur ar ddechrau model yr Ysgolion Arloesi. Gallai Llywodraeth Cymru fod wedi pennu amserlenni a cherrig milltir mwy eglur, ac fe allai hyn fod wedi helpu i reoli disgwyliadau'n well.

Gweithgarwch gweithgorau

- 2.7 Roedd Arloeswyr Cwricwlwm yn teimlo'n gadarnhaol am y cyfleoedd er mwyn rhwydweithio, ymchwilio i arfer da a deall y dimensiwn rhyngwladol a gyflwynir gan weithgorau Llinyn 1. Roedd arloeswyr yn pwysleisio bod gweithio gydag arbenigwyr wedi rhoi dimnadaeth iddynt o'r ystyriaethau a'r dulliau gweithredu diweddaraf mewn perthynas â chynllunio a gweithredu cwricwlwm o ardaloedd pellach i ffwrdd. Roedd hyn wedi rhoi'r sicrwydd i arweinwyr strategol Ysgolion Arloesi eu bod yn symud i'r cyfeiriad cywir, gan roi'r hyder iddynt i gyfleu syniadau newydd i'w hysgolion ac arloesi.
- 2.8 Roedd arloeswyr yn teimlo'n gadarnhaol iawn am ansawdd y gwaith hwyluso yng ngrwpiau Llinyn 1, er y beirniadwyd y diffyg gweithgarwch hwyluso cyfrwng

Cymraeg mewn lleiafrif o achosion gan rai arweinwyr strategol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- 2.9 Adroddodd arloeswyr nad ydynt wastad yn siŵr sut y byddai canlyniadau'r gwaith ymchwil a gyflawnwyd gan weithgorau yn cael eu gweithredu neu'n cael eu defnyddio er mwyn cyfrannu at weithgarwch parhaus. Gan fyfyrio ar weithgarwch gweithgorau, nid oedd rhai Arloeswyr Cwricwlwm yn eglur ynghylch sut y byddai trafodaethau'n cael eu symud yn eu blaen er mwyn cynorthwyo gyda'r 'manylyion ymarferol' o ddatblygu cwricwlwm newydd.
- 2.10 Adroddodd Arloeswyr Dysgu Proffesiynol nad oeddent yn glir ynghylch gweithgarwch cynnar, gan nodi nad oedd y trafodaethau cychwynnol yn cynnwys ffocws, ac roeddent yn teimlo bod diffyg dilyniant ac eglurder o ran y pwrpas yn y gweithgarwch cychwynnol (a oedd yn dwyn yr enw y Fargen Newydd ar y pryd).
- 2.11 Roedd lleiafrif o Arloeswyr yn teimlo nad oedd y cyfraniadau'n gyfartal, gyda rhai ysgolion yn cyfrannu mwy nag eraill i weithgorau Llinyn 1. Mae hyn yn cysylltu â phwyntiau ehangach dan monitro ac atebolrwydd (gweler adnoddau ac atebolrwydd, paragraff 2.22).

Yn gryno:

- Yn gyffredinol, roedd Arloeswyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gyflwynwyd gan weithgorau Llinyn 1, yn enwedig yr elfennau rhwydweithio ac ymchwil.
- Roedd ysgolion yn gwerthfawrogi rôl arbenigwyr allanol yn ystod gweithgarwch Llinyn 1 ac maent yn awyddus i Lywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol sicrhau bod cyfleoedd parhaus iddynt ymgysylltu ag arbenigwyr ar adegau priodol trwy gydol y broses Arloesi.
- Nid oedd rhai Arloeswyr yn siŵr ynghylch sut y gallai neu sut y dylid defnyddio trafodaethau, penderfyniadau neu ganfyddiadau ymchwil yn deillio o Llinyn 1 er mwyn cyfrannu at weithgarwch Arloesi ehangach mewn ysgolion. Roedd hyn yn cyfrannu at dybiaeth ymhlith rhai arweinwyr ysgol bod gweithgarwch Arloesi cynnar rywfaint yn ddarniog a heb fod wedi cael ei gydlynu.

Gweithgarwch ar lefel ysgol yn ystod Llinyn 1

- 2.12 Adroddodd Arloeswyr nad ydynt yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwyllir ganddynt o ran gweithgarwch ar lefel ysgol, gan gynnwys y math o dasgau y disgwyliwyd iddynt eu cyflawni rhwng cyfarfodydd gweithgor. Roedd barn gyffredinol y byddai wedi bod

modd cyhoeddi canllawiau mwy eglur yn nodi enghreifftiau o'r math o ddulliau gweithredu neu brosiectau newydd i'w datblygu. Yn ystod Llinyn 1, nid oedd nifer o Arloeswyr Cwricwlwm yn siŵr ynghylch sut yr oedd eu gwaith ar lefel ysgol yn gysylltiedig â gweithgarwch gweithgor a datblygiad y cwricwlwm newydd yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn adleisio sylwadau a wnaethpwyd gan yr Arloeswyr Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol a nododd nad oeddent yn ymwybodol o weithgarwch ar lefel genedlaethol neu ranbarthol yn ystod Llinyn 1 er mwyn coladu, gwerthuso a rhannu gwybodaeth am weithgarwch ar lefel ysgol.

2.13 Darparwyd enghreifftiau o amrediad o weithgareddau ar lefel ysgol gan arloeswyr, yr oeddent yn ceisio adlewyrchu egwyddorion Dyfodol Llwyddiannus. Mae **Arloeswyr Cwricwlwm**, er enghraifft, wedi:

- Mabwysiadu dulliau gweithredu ysgol gyfan: mewn rhai ysgolion, mae timau rheoli uwch wedi cyflwyno dulliau gweithredu newydd tuag at gynllunio'r cwricwlwm, gan ymgysylltu â dysgwyr a rhieni wrth gynllunio ac arfarnu'r dulliau hyn.
- Symud tuag at ailstrwythuro'r cwricwlwm ar sail y saith maes dysgu a phrofiad; ymgynghori ag aelodau timau arwain uwch, staff ehangach a dysgwyr mewn ysgolion am bwyntiau trafod grŵp Llinyn 1 (gweler Enghraifft 1).

Enghraifft 1: Ail-werthuso'r broses o ddarparu'r cwricwlwm (Ysgol Gynradd)

Yn dilyn trafodaethau Llinyn 1 a gweithgarwch cynnar Llinyn 2, mae'r ysgol wedi bod yn awyddus i archwilio dulliau gweithredu newydd er mwyn gweithio mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys nodi cysylltiadau ar draws meysydd cwricwlwm. Yn ystod y tymor ysgol cyfredol, bydd yr ysgol yn archwilio croeslif o ran unedau gwaith, gan sicrhau bod pob Maes Dysgu a Phrofiad yn cael ei gynnwys. Am chwe wythnos yn ystod tymor yr haf, bydd un grŵp blwyddyn yn treialu pwnc sy'n canolbwyntio ar eu hardal leol, gan gyfuno elfennau o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Caiff gweithgarwch adolygu beirniadol mewnol ei gynnwys yn y gweithgarwch: yn ystod y gwaith cyflawni, bydd yr ymarferwyr gwaith a'r dysgwyr yn rhoi adborth am y gwahanol ddulliau gweithredu tuag at arweinwyr uwch yn yr ysgol, gan fyfyrion am gryfderau a sialensiau a dysgu ac ymarferoldeb y dull gweithredu hwn ar draws yr ysgol gyfan. Yn ogystal, bydd athrawon yn ystyried gweithrediad posibl y prosiect mewn gwahanol fathau o ysgolion mewn gwahanol leoliadau. Ar ddiwedd y tymor, bydd disgyblion yn cyflwyno'u gwaith prosiect a gwblhawyd a'u safbwyntiau am y ffordd hon o weithio i rieni.

2.14 Mae **Arloeswyr Dysgu Proffesiynol** yn ymchwilio i ac yn ystyried goblygiadau gweithredu safonau addysgu proffesiynol newydd yn eu hysgolion. Mae hyn yn cynnwys ymgyfarwyddo â'r safonau addysg proffesiynol trwy gyfrwng amrediad o weithgarwch, gan gynnwys:

- Cyflwyno a thrafod y safonau yn ystod cyfarfodydd staff mewnol;
- Archwilio cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer staff ar draws yr ysgol yn unol â'r safonau addysgu proffesiynol;
- Ymchwilio ar lefel ysgol sut y byddai modd gweithredu'r safonau a sut y gallent gael eu trosi i weithgarwch cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth;
- Cysylltu safonau addysgu proffesiynol ag arsylwi gwersi a hunanwerthuso.

Enghraifft 2: Cysylltu gweithgaredd dysgu proffesiynol a chynllunio cwricwlwm (Ysgolion Uwchradd)

Mae un Arloeswr Dysgu Proffesiynol wedi cynnal diwrnodau hyfforddiant mewn swydd yn ystod 2016 a 2017 gan ganolbwyntio ar Ddyfodol Llwyddiannus. Yn ystod y diwrnodau hyfforddi hyn, gwahoddiwyd siaradwyr gwadd, gan gynnwys penaethiaid o Ysgolion Arloesi eraill. Treuliodd athrawon amser yn trafod egwyddorion Dyfodol Llwyddiannus, beth allai hyn ei olygu o ran safonau addysgu proffesiynol a'r symudiad tuag at drefnu cwricwlwm yn seiliedig ar Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'r ysgol hefyd wedi cynnal pedair sesiwn hyfforddi ar ôl ysgol sy'n canolbwyntio ar agweddau mwy penodol megis datblygu adnoddau ar gyfer cyflwyno gweithgarwch Ysgolion Arloesi. Mae rhai o'r sesiynau hyn wedi cael eu cynnal ar y cyd ag Ysgol Arloesi leol arall.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar gynllunio tri diwrnod o weithgareddau cwricwlaidd wedi'u strwythuro o amgylch y Meysydd Dysgu a Phrofiad, i gael eu cyflwyno i Flynyddoedd 7-9 yn ystod tymor yr haf 2017. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithgorau mewnol i ganolbwyntio ar weithgarwch Ysgolion Arloesi. Mae'r holl staff wedi cael eu neilltuo i grŵp Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer cynllunio gwersi, gweithgareddau ac adnoddau ar gyfer y diwrnodau peilot yma. Bydd staff yn gwerthuso'r gweithgaredd hwn yn ystod sesiwn hyfforddiant staff ar ôl ysgol a thrwy arolwg disgyblion. Y cam nesaf fydd datblygu'r dyddiau hyn i fod yn wythnosau cyfan o gyflwyno'r cwricwlwm ar sail y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

- 2.15 Mae nifer o Arloeswyr yn cydweithio gydag Arloeswyr eraill a gydag ysgolion Partner (nad ydynt yn ysgolion Arloesi) er mwyn rhannu datblygiadau a dysgu ar lefel ysgol. Weithiau, mae'r cydweithio hwn ar ffurf rhannu arfer da er mwyn hwyluso gwelliant ac o bryd i'w gilydd, mae ar ffurf gwneud gwaith ymchwil a datblygu dulliau gweithredu newydd ar y cyd. Yn ystod gweithgarwch Llinyn 1, roedd Arloeswyr yn teimlo bod diffyg eglurder ynghylch faint o gydweithio ac ymgysylltu gydag ysgolion eraill a ddisgwylir ganddynt. Wrth i'r amser fynd heibio, bu cynnydd yn nifer ac amllder y digwyddiadau rhanbarthol sy'n dwyn Arloeswyr ac ysgolion Partner ynghyd.
- 2.16 Gofynnwyd i arloeswyr fyfyrion am y risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o rwydwaith yr Ysgolion Arloesi. Ni fynegwyd pryderon arwyddocaol gan y rhan fwyaf ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig gyda bod yn Arloeswyr a mabwysiadu dulliau gweithredu arloesol, er bod nifer fach wedi mynegi mân bryderon am bwysigrwydd cynnal cynnydd a deilliannau disgyblion wrth gyflawni gweithgarwch datblygu arbrofol.

Yn gryno:

- Mae ysgolion Arloesi wedi dangos menter wrth dreialu dulliau gweithredu newydd. Maent wedi buddsoddi adnoddau ac amser ac maent wedi ymrwymo i'r cam o gefnogi model llwyddiannus.
- Mae angen eglurder ynghylch y disgwyliadau o ran gweithgarwch ar lefel ysgol, gan gynnwys argymhellion ynghylch sut y dylai ysgolion ganolbwyntio eu gwaith. Roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod gweithgarwch Llinyn 1, ond mae yr un mor bwysig yn ystod cyfnodau gweithgarwch olynol.
- I'r un perwyl, mae angen egluro lefel a natur y cydweithio a ddisgwylir rhwng ysgolion Arloesi a Phartner. Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol, bennu canllawiau clir i ysgolion er mwyn cynorthwyo gyda hyn.
- Mae Arloeswyr yn sicrhau cynnydd wrth raeadru gwybodaeth ar draws yr ysgol mewn perthynas â:
 - i. Gweithgarwch arloesi penodol yn yr ysgol; a'r
 - ii. Broses er mwyn diwygio'r cwricwlwm yn fwy cyffredinol, trwy gyfrwng cyfarfodydd staff a sesiynau hyfforddiant.

Cyfathrebu a chydlynu

- 2.17 Bu cyfweiliadau'n archwilio pa mor effeithiol y cyfathrebwyd am waith y rhwydwaith Arloesi yn ystod Llinyn 1. Fel y nodwyd uchod, gwnaethpwyd sylwadau a gododd dro ar ôl tro am yr angen am gyfathrebu gwell ynghylch amserlenni cyflawni a cherrig milltir sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm er mwyn helpu ysgolion i gynllunio'u defnydd o adnoddau dros y flwyddyn.
- 2.18 Roedd gan Arloeswyr Cwricwlwm rywfaint o ymwybyddiaeth o waith gweithgorau eraill Llinyn 1 o fewn eu meysydd priodol ac adroddodd ysgolion eu bod wedi cael eu hannog yn ystod digwyddiadau ymgysylltu cenedlaethol i rannu gwybodaeth ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol gan ddefnyddio Hwb. Fodd bynnag, roedd yr Arloeswyr yn teimlo nad oeddent yn glir ynghylch sut i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ystod Llinyn 1 er mwyn cynorthwyo'u gweithgarwch arloesi nhw. Mae adroddiadau cychwynnol o weithgarwch Llinyn 2 yn dynodi bod mwy o ffocws ar ddwyn ynghyd Arloeswyr ac ysgolion Partner ar lefel ranbarthol yn amlach er mwyn rhannu arfer da a thrafod gweithgarwch er mwyn diwygio'r cwricwlwm. Roedd yr Arloeswyr yn cytuno bod gweithrediad llwyddiannus y model yn golygu bod gofyn i gonsortia rhanbarthol gyflawni rôl cydlynu clir. Awgrymwyd y dylai'r rôl hwn gynnwys amlygu enghreifftiau diddorol o weithgarwch arloesol mewn ysgolion o fewn eu rhanbarthau, sicrhau ansawdd a chyfleu'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn hyn o beth i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.
- 2.19 Mae Arloeswyr yn adrodd am lefelau ymwybyddiaeth da o ddatblygiad a gweithrediad DCF mewn ysgolion, o ganlyniad i gyflwyniadau ar lefel genedlaethol a mwy o ffocws ar lefel ranbarthol.

Yn gryno:

- Wrth i'r model ddatblygu, mae angen ystyried y ffordd orau o goladu, arfarnu a manteisio ar arloesi a gweithgarwch ar lefel ysgol. Awgrymwyd bod consortia rhanbarthol yn y sefyllfa orau i arwain at hyn, a cheir arwyddion eu bod eisoes yn cyflawni rôl cydlynu gwyb.
- Mae graddfa'r Model Arloesi yn golygu bod sialensiau'n bodoli wrth sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng yr holl gyfranogwyr ac ar wahanol lefelau. Gan fanteisio ar brofiadau ysgolion yn ystod Llinyn 1, mae'n amlwg bod angen sicrhau cyfathrebu mwy effeithiol yn y lle cyntaf rhwng ysgolion, clystyrau a gweithgorau (cyfathrebu llorweddol); yn ogystal, mae angen sicrhau cyfathrebu mwy rheolaidd ynghylch cynlluniau strategol rhwng Llywodraeth Cymru, consortia ac ysgolion (cyfathrebu fertigol, i fyny ac i lawr rhwng gwahanol haenau).

Trefniadau sicrhau ansawdd

- 2.20 Codwyd cwestiynau gan Arloeswyr ynghylch a yw'r Model Arloesi yn cynnwys 'rhwystrau a gwrthbwysau' er mwyn sicrhau a) bod y gweithgarwch a gyflawnir o ansawdd da a b) bod y gwaith arloesol a gyflawnir yn driw i'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a nodir yn nogfen Dyfodol Llwyddiannus. Ac eithrio'r broses adolygu cymheiriaid trwy Hwb, nododd rhai ysgolion nad oes fawr iawn o weithgarwch sicrhau ansawdd gwrthrychol wedi cael ei gynnwys yn y model.
- 2.21 Mae Estyn yn darparu rhywfaint o weithgarwch rheoli ansawdd trwy gyfrwng eu cyswllt helaeth gyda grwpiau cynllunio strategol, eu cysylltiadau gydag ALLau a Chonsortia a gweithgorau eraill. Fodd bynnag, roedd nifer o ysgolion o'r farn na roddir rhyw lawer o ystyriaeth i ansawdd y gweithgarwch arloesi a'r deilliannau ar gyfer ysgolion yn ystod Llinyn 1. Adroddodd ysgolion nad oes ganddynt ymwybyddiaeth ddigonol ynghylch y ffaith a yw'r gwaith arloesol y maent yn ei wneud o ansawdd da neu beidio.

Yn gryno:

- Dylid annog ysgolion i adolygu ansawdd yr holl agweddau ar eu gweithgarwch Arloesi. Efallai y bydd cyfleoedd, trwy gyfrwng gweithgarwch lleol/wedi'i seilio ar glystyrau, i weithio gydag ysgolion Partner er mwyn adolygu neu brofi manylrwydd, gwerth a pherthnasedd ehangach y gweithgarwch Arloesi a brofwyd.
- Bydd modd gofyn i Arloeswyr adrodd yn ôl am unrhyw waith hunanwerthuso / gwerthuso cymheiriaid a gyflawnwyd yn dilyn gweithgareddau yn y ffurflenni monitro a gyflwynir i gonsortia rhanbarthol (*gweler adnoddau ac atebolrwydd isod*).

Adnoddau ac atebolrwydd

- 2.22 Yn ystod Llinyn 1, gwelwyd amrywiadau o ran y gofynion adrodd a monitro ar gyfer Arloeswyr mewn gwahanol ranbarthau. Roedd consortiwm rhanbarthol rhai Arloeswyr yn gofyn iddynt gyflwyno cofnod sylfaenol iawn o'u gwariant a'r amser a dreuliodd ar weithgarwch Arloesi; gofynnwyd i Arloeswyr eraill roi cofnod manylach. Mewn rhai achosion, mae Arloeswyr wedi darparu adroddiadau a gwerthusiadau o brosiectau a gweithgareddau a gynhaliwyd, er nad oedd hwn yn ofyniad penodol

gan Lywodraeth Cymru na chonsortia. Gwelwyd consensws cyffredinol bod lle i wella'r trefniadau monitro a chryfhau'r fframwaith atebolrwydd sy'n rhan o'r model.

- 2.23 Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan ysgolion ynghylch lefel yr adnoddau er mwyn cynorthwyo gweithgarwch Arloesi. Y prif fater yw nad yw gwaith Arloesi wedi cael ei ddsbarthu mewn ffordd gyfartal yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae cyllid yn caniatáu i ysgol ryddhau aelod o staff am ddau ddiwrnod yr wythnos. Ar y cyfan, adroddodd ysgolion bod hwn yn ddigonol yn ystod cyfnodau cynharach y gweithgarwch yn ystod Llinyn 1. Yn wir, adroddodd rhai eu bod wedi cael anhawster llenwi eu dau ddiwrnod ar y dechrau. Wrth i'r amser fynd yn ei flaen, mae ysgolion yn adrodd eu bod yn treulio mwy na dau ddiwrnod yr wythnos ar y gweithgarwch er mwyn diwygio'r cwricwlwm, ac mae nifer o ymarferwyr yn adrodd eu bod yn gwneud rhywfaint o waith arloesi yn eu hamser eu hunain.
- 2.24 Nododd nifer fach o Arloeswyr sy'n gweithio mewn clystyrau bod lefel yr adnoddau a geir (a rennir rhwng ysgolion lluosog) yn annigonol er mwyn iddynt gyfrannu cymaint ag y gallent.
- 2.25 Hyd yn oed gyda'r adnoddau sydd ar gael, mae arloeswyr yn nodi ei bod yn anodd rhyddhau staff addysgu da o'r ystafell ddsbarth yn rheolaidd. Mae rhai ysgolion yn cynnwys athrawon lluosog yn y rhaglen, gan ganiatáu iddynt fynychu cyfarfodydd a chynadleddau.

Yn gryno:

- Yn ystod Llinyn 1, roedd y trefniadau monitro a oedd mewn grym ar gyfer Arloeswyr yn amrywio o ranbarth i ranbarth, ac nid oedd y trefniadau hyn yn galluogi cyswllt rhwng darpariaeth adnoddau, y gweithgareddau a'r allbynnau / canlyniadau bob amser.
- Mae angen rhoi sylw i hyn, gan sicrhau y cesglir gwybodaeth fonitro mwy cadarn gan gonsortia rhanbarthol yn ystod Llinyn 2 a chyfnodau dilynol.

3. Rhan B: Canolbwyntio ar weithgarwch Ysgolion Arloesi Llinyn 2 (Gwaith Maes Mehefin – Gorffennaf 2017)

Cyfweld â sampl o ysgolion yn ystod y cam gwerthuso hwn

- 3.1 Ymunodd cyfanswm o 26 o ysgolion â'r rhwydwaith Arloesi fel Arloeswyr y Cwricwlwm ym mis Ionawr 2017. Gwahoddwyd pob un ohonynt i gymryd rhan mewn cyfweiliadau dros y ffôn er mwyn clywed am eu profiadau o'r Model. Cynhaliwyd 20 o gyfweiliadau ag arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2017. Fel y gwelir o'r tabl isod, roedd amrywiad o ran nifer yr Arloeswyr newydd ym meysydd y consortiwm, fel yr adlewyrchir yn nifer yr ysgolion a gyfwelwyd ym mhob maes.

Tabl 3: Sampl o Arloeswyr y Cwricwlwm a gymerodd ran mewn cyfweiliadau Llinyn 2 (Mehefin-Gorffennaf 2017).

Consortiwm	Arloeswyr y Cwricwlwm a ymunodd ym mis Ionawr 2017	Arloeswyr y Cwricwlwm a gyfwelwyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2017
EAS	1	0
CSC	3	3
GwE	14	11
ERW	8	6
Cyfanswm	26	20

Crynodeb o'r canfyddiadau

Ysgolion Arloesi: Rôl a chylch gorchwyl yn ystod Llinyn 2

- 3.2 Fel arfer, roedd Arloeswyr yn rhoi'r cyfrifoldeb am arwain gweithgarwch Llinyn 2 i aelod o staff nad oeddent yn gysylltiedig â gweithgarwch Llinyn 1. Mae'r rhai sy'n cynrychioli ysgolion ar grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad yn dueddol o fod yn Benaethiaid Cynorthwyol (naw ysgol) neu'n Benaethiaid Adran (saith ysgol), yn ogystal â nifer fach o benaethiaid, dirprwy benaethiaid ac athrawon. Cafodd rôl arweiniol dwy ysgol arloesi ei rhannu rhwng dau neu dri aelod o staff er mwyn rhannu llwyth gwaith a gwybodaeth.

- 3.3 Nododd bron pob Arloeswr nad oeddent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau na'u hamcanion pan wnaethant gytuno i ddod yn Ysgol Arloesi yn y lle cyntaf. Cyn ymuno, nid oedd gan sawl un ohonynt lawer o wybodaeth am y Model Arloesi, neu dim ond trosolwg cyffredinol a roddwyd iddynt ynglŷn â'r gwaith. Nododd llawer ohonynt ei bod wedi cymryd sawl cyfarfod Maes Dysgu a Phrofiad iddynt ymglyfarwyddo â'r gwaith, i ddeall yn iawn yr hyn y byddent yn ei gynhyrchu ac i werthfawrogi'r ymrwymiad angenrheidiol.
- 3.4 Nododd pob un fod eu cyfrifoldebau a'u hamcanion wedi dod yn gliriach wrth iddynt ddechrau mynychu cyfarfodydd Meysydd Dysgu a Phrofiad. Nododd bron pob un eu bod wedi cael amserlen a cherrig milltir ar gyfer gweithgarwch Llinyn 2. Erbyn i'r cyfweiliadau gael eu cynnal (Mehefin/Gorffennaf 2017), nododd yr Arloeswyr eu bod yn teimlo'n hyderus eu bod yn deall nodau ac amcanion eu grŵp Maes Dysgu a Phrofiad a bod y cynnyrch terfynol yr oeddent yn gweithio tuag ato wedi'i ddiffinio.

I grynhoi:

- Mae cynrychiolaeth Ysgolion Arloesi ar grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad yn amrywio, o benaethiaid i benaethiaid adran ac athrawon dosbarth. Gall fod yn werthfawr ystyried pa rôl/swydd mewn ysgolion yw'r mwyaf addas ar gyfer bod yn aelod o grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad neu p'un ai ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i ddewis pwy ddylai eu cynrychioli ac arwain ar weithgarwch Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- Er bod bron pob Arloeswr yn gwybod beth yw ei rôl a'i gyfrifoldebau bellach, aeth llawer ohonynt ati i ymgymryd â gweithgarwch Arloesi heb wybodaeth glir ynghylch eu cyfrifoldebau. Dylai ysgolion gael eu hysbysu'n llawn am yr ymrwymiad / disgwyliadau sy'n ofynnol o ddechrau eu cyfnod fel Ysgol Arloesi.

Gweithgarwch gweithgorau

- 3.5 Nododd pob Arloeswr fod gweithgareddau tebyg wedi'u cynnal mewn grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad, yn cynnwys:
- Cynnal ymchwil i enghreifftiau o drefniadau cwricwlwm amgen yn rhyngwladol;
 - Cydweithio fel Maes Dysgu a Phrofiad cyfan ac fel is-grwpiau i lunio cwmpas a ffiniau'r Maes Dysgu a Phrofiad;

- Ystyried sut mae'r pedwar diben craidd yn alinio â'r Maes Dysgu a Phrofiad;
 - Gwrando ar siaradwyr gwadd;
 - Rhannu arfer da;
 - Pennu tasgau 'gwaith cartref' a rhoi adborth arnynt.
- 3.6 Nododd llawer o Arloeswyr fod siaradwyr gwadd wedi bod yn werthfawr, yn enwedig wrth roi sail ddamcaniaethol i'w gwaith ei hun. Serch hynny, roedd rhai yn teimlo bod hyn wedi arafu cynnydd (gweler isod). Gwnaeth yr Arloeswyr awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r ffordd o ymgysylltu â siaradwyr gwadd, gan gynnwys gwahodd siaradwyr â 'chefndir addysg ymarferol' cadarn a chael cydbwysedd da o arbenigedd o Gymru ac arbenigedd rhyngwladol. Cyfeiriodd nifer o Arloeswyr at brosiect CAMAU sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i lunio camau dilyniant a strategaethau asesu fel rhan o'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm. Er bod yr Arloeswyr yn cefnogi prosiect CAMAU, awgrymwyd ei fod wedi'i gyflwyno'n rhy gynnar yn y broses ac y byddai'r gwaith hwn wedi bod yn fwy buddiol ar ôl diffinio cwmpas y Maes Dysgu a Phrofiad.
- 3.7 Mynegodd yr Arloeswyr safbwyntiau gwahanol ynghylch cyflymder y gwaith a wnaed. Nododd y rhan fwyaf o'r Arloeswyr fod y cynnydd hyd yma wedi bod yn dda ar y cyfan. Roedd eraill yn teimlo'n rhwystredig ynghylch y cynnydd arafach a oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â thrafodaethau a datblygiadau, gydag amser yn cael ei dreulio'n sicrhau bod aelodau'r Maes Dysgu a Phrofiad yn gyfarwydd â damcaniaeth a gweithgarwch Llinyn 2.
- 3.8 Nododd yr Arloeswyr fod un Maes Dysgu a Phrofiad wedi profi trosiant uchel o ran ei aelodau. Nodwyd bod y diffyg cysondeb hwn yng nghyfansoddiad y Maes Dysgu a Phrofiad, ynghyd â diffyg cynrychiolaeth addas gan sectorau a meysydd pwnc gwahanol, wedi rhwystro cynnydd.

I grynhoi:

- Mae aelodaeth gyson o Feysydd Dysgu a Phrofiad yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud cynnydd da heb orfod ailadrodd trafodaethau a chymau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol.
- Mae cynrychiolaeth dda o wahanol sectorau a phynciau ar y grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad yn hanfodol er mwyn sicrhau dyluniad cynhwysfawr.
- Mae lle i sicrhau bod Arloeswyr yn gwybod o'r cychwyn cyntaf y gallai elfennau o'r broses ddylunio, o reidrwydd, fod yn gymharol araf.

Gweithgarwch hwyluso gweithgorau

- 3.9 Nododd bron pob Arloeswr fod y broses o hwyluso cyfarfodydd Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi bod yn dda. Roedd llawer ohonynt yn cydnabod bod grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cynnwys amrywiaeth eang o sectorau, buddiannau a lefelau arbenigedd a bod hwyluswyr yn rheoli trafodaethau rhwng Arloeswyr yn dda iawn ar y cyfan. Mae cadeiryddion / hwyluswyr yn sicrhau bod pawb yn y cyfarfod yn cael yr un cyfle i gyfrannu at drafodaethau a datblygu adroddiad y Maes Dysgu a Phrofiad. Nododd bron pob Arloeswr fod hwyluswyr wedi pennu tasgau a cherrig milltir yn glir.
- 3.10 Awgrymodd rhai Arloeswyr sut y gellid mynd ati i wella'r broses hwyluso, er enghraifft caniatáu i Arloeswyr gymryd rhan yn y broses o lunio'r agenda a sicrhau y gallant roi adborth ar eu gwaith yn ystod cyfarfodydd. Nododd Arloeswyr o un Maes Dysgu a Phrofiad fod gweithgarwch hwyluso a phenderfyniadau wedi bod yn heriol, gyda thrafodaethau yn aml yn 'troi mewn cylchoedd' a diffyg eglurder ynghylch cynnydd y Maes Dysgu a Phrofiad hwnnw. Nodwyd bod cyfansoddiad y grŵp a diffyg cofnodion clir/cofnodion ynghylch penderfyniadau yn gynnar yn y broses wedi cyfrannu at yr her hon.

I grynhoi:

- Dylid sicrhau bod gweithdrefnau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar waith ar ddechrau pob Llinyn, yn enwedig er mwyn ymateb i amgylchiadau heriol fel y trosiant uchel mewn Arloeswyr a brofwyd gan un Maes Dysgu a Phrofiad yn benodol.
- Dylid cael systemau er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgir drwy weithgarwch Arloesi mewn ysgolion yn cael ei fwydo'n ôl er mwyn llywio trafodaethau'r Maes Dysgu a Phrofiad.

Gweithgarwch lefel ysgol yn ystod Llinyn 2

- 3.11 Mae pob Arloeswr wedi bod yn ymgymryd â thasgau 'gwaith cartref' rhwng cyfarfodydd Meysydd Dysgu a Phrofiad. Fel arfer, mae tasgau gwaith cartref yn cynnwys gwaith ymchwil/darllen ac adroddiadau byr i rannu canfyddiadau. Nododd Arloeswyr eu bod yn cael tasgau clir i'w cwblhau yn y rhan fwyaf o achosion, er i rai nodi y byddai cyfarwyddiadau mwy penodol ac amserol yn ddefnyddiol. Nododd rhai ysgolion fod y rhan fwyaf o'u hamser fel Arloeswyr wedi'i dreulio yn ymgymryd â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- 3.12 Mae pob Arloeswr wedi gweithio gyda chydweithwyr yn eu hysgolion i ryw raddau. Fodd bynnag, mae lefel y rhyngweithio â chydweithwyr a'r ffordd yr eir ati i rhyngweithio â nhw yn amrywio. Ymhlith y gweithgarwch a nodwyd mae'r canlynol:
- Rhoi cyflwyniadau i staff a/neu lywodraethwyr er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch datblygiadau;
 - Gofyn i aelodau perthnasol o staff roi adborth ac awgrymiadau ar waith Meysydd Dysgu a Phrofiad;
 - Cydweithio ag aelodau perthnasol o staff ar waith Meysydd Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys tasgau gwaith cartref (mewn un achos, sefydlu Gweithgor Arloesi);
 - Mewn rhai achosion, dechrau gofyn i staff ymgorffori egwyddorion cwricwlwm allweddol mewn arferion addysgu;
 - Mewn rhai achosion, gofyn i ddisgyblion roi adborth ar rai elfennau o waith Meysydd Dysgu a Phrofiad e.e. drwy Lais y Dysgwr.

- 3.13 Nododd tua hanner yr ysgolion y cyfwelwyd â nhw eu bod wedi treialu ffyrdd newydd o gyflwyno'r cwricwlwm eisoes. Mae'r math o waith a wnaed eisoes yn amrywio ac yn cynnwys y canlynol: treialu diwrnodau gweithgarwch trawsgwricwlaidd; treialu fframwaith asesu newydd; helpu staff i ddechrau ymgorffori'r pedwar diben craidd yn eu harferion addysgu; a threialu cwricwlwm 'gwybodaeth graidd' er mwyn ymgorffori egwyddorion Dyfodol Llwyddiannus.
- 3.14 Hefyd, nododd tua hanner yr ysgolion y cyfwelwyd â nhw eu bod wedi trefnu bod elfennau o'r cwricwlwm yn cael eu cyflwyno'n wahanol o fis Medi 2017 ymlaen. Ymhlith y mathau o gynlluniau sydd eisoes ar waith mae'r canlynol:
- adolygu rolau arwain ac addysgu er mwyn cyd-fynd â strategaeth y cwricwlwm newydd;
 - dechrau cysoni elfennau o'r cwricwlwm â strwythur newydd Meysydd Dysgu a Phrofiad;
 - ymgorffori egwyddorion allweddol a gweithgarwch Arloesi mewn cynlluniau gwella / datblygu ysgolion;
 - treialu cyfres o weithgareddau Meysydd Dysgu a Phrofiad;
 - treialu elfennau o'r cwricwlwm newydd gyda disgyblion ar gamau allweddol penodol.
- 3.15 Dim ond nifer fach o ysgolion a fethodd â rhoi unrhyw enghreifftiau o newidiadau penodol yr oeddent wedi'u gwneud, neu yr oeddent yn bwriadu eu gwneud, i'r cwricwlwm yn eu hysgolion eu hunain.
- 3.16 Nododd mwyafrif o'r Arloeswyr mai prin iawn fu'r ymgysylltu ag ysgolion partner, os o gwbl, hyd yma. Mae'r Arloeswyr hynny a nododd rywfaint o weithgarwch ymgysylltu yn dueddol o roi rhywfaint o wybodaeth i ysgolion partner ar adegau priodol. Nododd rhai o'r Arloeswyr hyn eu bod wedi bwriadu ymgysylltu ag ysgolion partner ymhellach yn ystod Llinyn 3. Nododd un neu ddau Arloeswr nad ydynt wedi gwneud digon o gynnydd eto o safbwynt ailddylunio'r cwricwlwm i ddechrau rhannu gwybodaeth neu ddysgu ag ysgolion eraill. Roedd lleiafrif ohonynt wedi ymgysylltu ag ysgolion partner, gan amlaf drwy rwydweithiau clwstwr a oedd yn bodoli eisoes. Roedd yr ysgolion hyn wedi trafod datblygiadau'r cwricwlwm gydag ysgolion clwstwr a/neu wedi treialu rhai dulliau newydd gydag ysgolion clwstwr (er enghraifft, eu cynnwys mewn diwrnodau gweithgarwch Meysydd Dysgu a Phrofiad).

I grynhoi:

- Fel y disgwylir ar y cam hwn o'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm, mae gweithgarwch lefel ysgol i ddatblygu a phrofi strwythurau a threfniadau'r cwricwlwm newydd yn amrywio. Nododd rhai ysgolion rhagweithiol eu bod yn bwriadu treialu dulliau gweithredu newydd o fis Medi 2017.
- Dylid rhoi canllawiau cyffredinol i Arloeswyr ar sut i fynd ati i werthuso'r dulliau gweithredu a gaiff eu treialu, er mwyn i hyn gael ei fwydo i mewn i'r broses barhaus o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae gan gonsortia rhanbarthol rôl ganolog i'w chwarae wrth oruchwylio a chydlynu'r gwaith hwn.
- Mae lle i helpu Arloeswyr i ymgysylltu'n fwy effeithiol ag ysgolion partner wrth i'r broses o ailddylunio'r cwricwlwm fynd rhagddi.

Cymorth a roddwyd i Ysgolion Arloesi yn ystod Llinyn 2

- 3.17 Mae'r rhan fwyaf o Arloeswyr yn teimlo eu bod yn cael digon o gymorth fel Ysgol Arloesi; nododd rhai ohonynt mai'r rheswm am hyn yw eu bod yn gallu mynd ati i gyflawni'r gwaith gofynnol yn annibynnol. Mynegodd yr Arloeswyr safbwyntiau cymysg ynghylch y cymorth y maent wedi'i gael gan eu consortia. Nododd rhai Arloeswyr eu bod yn gwerthfawrogi cyfarfodydd Arloesi rhanbarthol a drefnwyd gan eu consortiwm: mae'r cyfarfodydd hyn yn dwyn Arloeswyr ynghyd i rannu eu profiadau a thrafod sut mae gwaith Meysydd Dysgu a Phrofiad gwahanol yn mynd rhagddo.
- 3.18 Rhoddodd rhai Arloeswyr awgrymiadau ynghylch y math o gymorth ychwanegol a fyddai'n ddefnyddiol iddynt, gan gynnwys cymorth gan eu consortiwm: cymorth i ledaenu a rhannu arfer da ymhlith ysgolion Arloesi ac ysgolion partner; ymweliadau â'r ysgol gan gynrychiolwyr consortia; a sicrhau bod consortia ar gael ar gyfer trafodaethau lle y bo angen. Nododd lleiafrif o Arloeswyr nad oeddent yn ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael gan eu consortiwm, neu nad oedd digon o gymorth yn cael ei roi.
- 3.19 Nododd rhai Arloeswyr y byddai eu cyfranogiad fel Ysgolion Arloesi wedi bod yn haws i'w reoli pe bai cyfarfodydd Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cael eu hamserlennu'n rheolaidd ac ymhellach ymlaen llaw. Nododd rhai hefyd fod y newid i

fod yn Ysgol Arloesi yng nghanol blwyddyn academaidd wedi golygu ei bod ychydig yn anodd rhyddhau staff, gan fod amserlenni addysgu wedi'u llunio eisoes.

I grynhoi:

- Mae'n bosibl bod y safbwyntiau cymysg ar y cymorth a roddir gan gonsortia yn adlewyrchu'r dulliau gweithredu gwahanol a fabwysiedir gan y rhanbarthau i gefnogi'r model. Mae angen parhaus i egluro a chyfleu rôl consortia.
- Mae angen i sicrhau bod Arloeswyr yn cael amserlenni cyfarfodydd ymlaen llaw. Yn ddelfrydol, mae angen sicrhau bod Arloeswyr newydd yn ymuno cyn dechrau blwyddyn academaidd newydd, er mwyn hwyluso'r broses amserlennu.

Pwyntiau dysgu allweddol i lywio gwaith yn y dyfodol

- 3.20 Mae Arloeswyr hefyd yn cynnig awgrymiadau ynghylch pwyntiau dysgu allweddol o weithgarwch Llinyn 2 cynnar i lywio'r gwaith parhaus a wneir gan Ysgolion Arloesi.
- 3.21 Pwysleisiodd rhai Arloeswyr fod angen eglurhad nawr ynghylch sut y caiff y model Ysgolion Arloesi ei ddwyn at ei gilydd yn ei gyfanrwydd e.e. cysondeb o ran y Meysydd Dysgu a Phrofiad, sut y bydd y llinyn dysgu proffesiynol yn bwydo i mewn i'r cwricwlwm newydd.
- 3.22 Mynegodd rhai Arloeswyr bryderon fod yr amserlenni ar gyfer y cwricwlwm newydd yn dynn ac felly bod angen sicrhau bod y broses ar y trywydd iawn¹. Nodwyd bod angen egluro'r amserlenni hyn hefyd e.e. pryd a sut y cânt eu trosglwyddo'n llawn i'r cwricwlwm newydd.
- 3.23 Nododd rhai Arloeswyr bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r cwricwlwm ymhlith ysgolion partner a'r angen am system gadarn er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gyson. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar sut y gallai/y dylai hyn gael ei wneud, gan egluro rolau Arloeswyr wrth gefnogi'r gweithgarwch lledaenu hwn.

¹ Yr amserlenni y cyfeiriwyd atynt oedd y rhai a gyhoeddwyd yn 'Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am Oes.' Mae'r rhain wedi'u diwygio ers hynny a gellir dod o hyd i'r amserlenni diwygiedig yn 'Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-2021'.

4. Rhan C: Gweithgareddau ymchwil sy'n weddill fel rhan o'r gwerthuso ffurfiannol

4.1 Bwriedir ymgymryd â'r camau ymchwil canlynol:

- Astudiaethau achos gydag Ysgolion Arloesi, ysgolion Partner yn yr un clwstwr a chonsortia rhanbarthol er mwyn ystyried y broses o ddatblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad yn fanylach. [Tachwedd 2017 i Ionawr 2018].
- Ymhlith y themâu a gaiff eu hystyried yn ystod yr ymchwil astudiaethau achos hon bydd:
 - Effeithiolrwydd y model Arloesi
 - Gweithgarwch lefel ysgol
 - Cydweithio a phartneriaethau
 - Datblygiad personol ymarferwyr sy'n gysylltiedig â gweithgarwch arloesi
 - Pwyntiau dysgu a meysydd i'w gwella
- Arolwg o'r holl Arloeswyr, yn cwmpasu themâu tebyg i'r rhai a amlinellir uchod. Caiff yr arolwg hwn ei lansio yn un o ddigwyddiadau cenedlaethol y rhwydwaith Arloesi ym mis Ionawr 2018.
- Adroddiad terfynol ar y gwerthuso ffurfiannol ym mis Mawrth 2018